# Amddiffyn plant rhag niwed ar-lein

## Cipolwg ar y codau arfaethedig

Cyhoeddwyd 08 Mai 2024

# Cipolwg ar y Codau Arfaethedig

**Mae'r ddogfen hon yn crynhoi mesurau'r Codau arfaethedig yn yr ymgynghoriad hwn ac mae'n amlinellu pa wasanaethau maent yn berthnasol iddynt. Bydd ein mesurau drafft yn helpu i greu profiadau mwy diogel ar-lein i blant yn y DU.**

Rydym wedi asesu pa fesurau y dylid eu defnyddio gan ba fathau o wasanaethau. Rydym yn cydnabod bod maint, capasiti, swyddogaethau, sylfaen defnyddwyr a risgiau gwasanaethau ar-lein yn amrywio'n eang, ac felly nid ydym wedi defnyddio un dull sy'n addas i bawb. Yn hytrach, rydym yn cynnig bod angen i wasanaethau sy'n peri'r risg fwyaf i blant wneud mwy i'w cadw'n ddiogel.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r mesurau diogelwch yr ydym yn cynnig sy'n berthnasol i (1) gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a (2) gwasanaethau chwilio. Rydym yn nodi'r rhain yn eu tro, ochr yn ochr â pha fathau o wasanaethau rydym yn cynnig y mae'r mesurau hyn yn berthnasol iddynt.

Byddai rhai o'r mesurau arfaethedig dan sylw yn berthnasol i'r holl wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr a gwasanaethau chwilio
yn y drefn honno. Mae'r mesurau hyn wedi'u hamlygu mewn pinc yn y tablau isod.

Mae mesurau eraill rydym yn cynnig eu cynnwys yn ein Codau Niwed Anghyfreithlon ac maent wedi'u hamlygu mewn glas.

P'un a fyddai rhai o'r mesurau'n cael eu hargymell ar gyfer gwasanaeth penodol yn dibynnu ar faint sylfaen defnyddwyr y gwasanaeth ac ar y risg o niwed i blant, yn seiliedig ar asesiad risg plant diweddaraf y gwasanaeth.[1] Rydym wedi cynnig y diffiniadau a'r termau canlynol:

### Maint sylfaen defnyddwyr y DU

- **Gwasanaethau mawr**: rydym yn cynnig diffinio bod gwasanaeth yn 'fawr' pan fo ganddo sylfaen defnyddwyr cyfartalog sy'n fwy na 7 miliwn y mis yn y DU, sy'n cyfateb yn fras i 10% o boblogaeth y DU.

### Lefel a math o risg

- **Aml-risg:** mae hwn yn cyfeirio at wasanaeth sydd â risg ganolig neu uchel ar gyfer dau fath neu fwy o gynnwys sy'n niweidiol i blant (h.y. o leiaf ddau ar draws y 4 math o PPC, 8 math o PC ac unrhyw fathau o NDC fel sy'n berthnasol).
- Argymhellir mesurau eraill ar gyfer gwasanaethau sydd â risg ganolig neu uchel ar gyfer **o leiaf un** math o gynnwys sy'n niweidiol i blant, o is-set diffiniedig o fathau o gynnwys sy'n berthnasol i bob mesur.

[1] Trowch at Gyfrol 5, Adran 2 'Datblygu Codau Diogelwch Plant: Ein fframwaith' i gael rhagor o wybodaeth ynghylch ein dull gweithredu o ran maint y gwasanaeth a'r risg o niwed i blant.

### Pwrpas y gwasanaethau

- Mae rhai mesurau hefyd yn seiliedig ar **brif bwrpas** y gwasanaeth. Mae hyn yn cyfeirio at brif weithgaredd neu amcan y gwasanaeth. Mae'r mesurau hynny'n dibynnu ar p'un ai prif bwrpas y gwasanaeth yw darparu neu ledaenu mathau penodol o gynnwys.

# Mesurau rydym ni wedi'u cynnig ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr

Mae'r tabl isod yn nodi ein mesurau arfaethedig ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant yn ogystal â'r mathau o wasanaethau a ddylai roi pob mesur ar waith. Mae'r mesurau'n cael eu trafod yn fwy manwl yng Nghyfrol 5, gyda phob grŵp o fesurau'n cynrychioli adran. Trafodir mesurau Llywodraethu ac Atebolrwydd yng Nghyfrol 4, Adran 11. Mae'r Codau Diogelwch Plant drafft yn Atodiad 7 (ar gyfer gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr) ac Atodiad 8 (ar gyfer gwasanaethau chwilio).

| Rhif | Disgrifiad o'r mesur arfaethedig | Y gwasanaethau rydym yn cynnig y bydd hyn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethu ac atebolrwydd (Cyfrol 4, Adran 11)** | | | |
| **GA1** | Y corff uchaf i gynnal a chofnodi adolygiad blynyddol o weithgareddau rheoli risg sy'n ymwneud â diogelwch plant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n fawr | 3A |
| **GA2** | Enwi unigolyn sy'n atebol i'r corff llywodraethu uchaf am gydymffurfio â dyletswyddau diogelwch plant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | 3B |
| **GA3** | Datganiadau ysgrifenedig o gyfrifoldebau uwch aelodau sy'n gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli risgiau diogelwch plant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant. | 3C |

| Rhif | Disgrifiad o'r mesur arfaethedig | Y gwasanaethau rydym yn cynnig y bydd hyn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **GA4** | Meddu ar swyddogaeth sicrwydd a monitro mewnol i roi sicrwydd annibynnol bod mesurau'n effeithiol | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr; ac<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant. | 3D |
| **GA5** | Olrhain cynnydd anarferol neu fathau newydd o Gynnwys Prif Flaenoriaeth, Cynnwys Blaenoriaeth, a Chynnwys Heb ei Ddynodi ar y gwasanaeth a allai fod yn dod i'r amlwg ar y gwasanaeth | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant. | 3E |
| **GA6** | Meddu ar God Ymddygiad sy'n gosod safonau ar gyfer gweithwyr o ran diogelu plant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant. | 3F |
| **GA7** | Sicrhau bod staff sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio a rheoli'r gwasanaeth yn weithredol wedi cael hyfforddiant digonol ar agwedd at gydymffurfio â dyletswyddau diogelwch plant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant. | 3G |
| **Sicrhau oedran (Cyfrol 5, Adran 15)** | | | |
| **AA1** | Defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i atal plant rhag defnyddio'r gwasanaeth cyfan | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• Sydd â'r prif bwrpas o ddarparu neu ledaenu un math neu fwy o Gynnwys Prif Flaenoriaeth. | Dim – mesur newydd |

| Rhif | Disgrifiad o'r mesur arfaethedig | Y gwasanaethau rydym yn cynnig y bydd hyn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **AA2** | Defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i atal plant rhag defnyddio'r gwasanaeth cyfan | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• Sydd â'r prif bwrpas o ddarparu neu ledaenu un math neu fwy o Gynnwys Blaenoriaeth, ac<br>• Sydd â risg ganolig neu uchel ar gyfer un neu fwy o'r mathau hynny o Gynnwys Blaenoriaeth. | Dim – mesur newydd |
| **AA3** | Defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i wneud yn siŵr bod plant yn cael eu hatal rhag dod ar draws Cynnwys Prif Flaenoriaeth sydd wedi'i nodi ar y gwasanaeth | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• Sydd â phrif bwrpas nad yw'n cynnwys darparu neu ledaenu un math neu fwy o Gynnwys Prif Flaenoriaeth, ac<br>• Sydd ddim yn gwahardd un math neu fwy o Gynnwys Prif Flaenoriaeth. | Dim – mesur newydd |
| **AA4** | Defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i wneud yn siŵr bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag dod ar draws Cynnwys Blaenoriaeth sydd wedi'i nodi ar y gwasanaeth | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr:<br>• Sydd â phrif bwrpas nad yw'n cynnwys darparu neu ledaenu un math neu fwy o Gynnwys Blaenoriaeth, ac<br>• Sydd ddim yn gwahardd un math neu fwy o Gynnwys Blaenoriaeth, ac<br>• Sydd â risg ganolig neu uchel ar gyfer un math neu fwy o Gynnwys Blaenoriaeth nad ydynt yn eu gwahardd. | Dim – mesur newydd |
| **AA5** | Defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i gymhwyso mesurau system argymell perthnasol yn y Cod i blant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n:<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel ar gyfer un math neu fwy o Gynnwys Prif Flaenoriaeth, ac sy'n<br>• Defnyddio system argymell cynnwys | Dim – mesur newydd |
| **AA6** | Defnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i gymhwyso mesurau system argymell perthnasol yn y Cod i blant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n:<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel ar gyfer un math neu fwy o Gynnwys Blaenoriaeth (ac eithrio bwlio), ac sy'n<br>• Defnyddio system argymell cynnwys[2] | Dim – mesur newydd |
| **Cymedroli cynnwys (Cyfrol 5, Adran 16)** | | | |

[2] Rydym hefyd yn bwriadu ymestyn y mesur hwn ar gyfer dau fath posibl o Gynnwys Heb ei Ddynodi (NDC). Trowch at Gyfrol 5, Adran 19 'Systemau Argymell' i gael rhagor o wybodaeth.

| Rhif | Disgrifiad o'r mesur arfaethedig | Y gwasanaethau rydym yn cynnig y bydd hyn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **CM1** | Systemau a phrosesau cymedroli cynnwys sydd wedi'u cynllunio i gymryd camau yn gyflym yn erbyn cynnwys sy'n niweidiol i blant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | 4A |
| **CM2** | Gosod polisïau cynnwys mewnol | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant. | 4B |
| **CM3** | Gosod targedau perfformiad ar gyfer y swyddogaeth cymedroli cynnwys | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant. | 4C |
| **CM4** | Meddu ar, a defnyddio, polisïau ar flaenoriaethu cynnwys i'w adolygu | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant. | 4D |
| **CM5** | Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer y swyddogaethau cymedroli cynnwys | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant. | 4E |
| **CM6** | Sicrhau bod timau cymedroli cynnwys wedi cael hyfforddiant priodol | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sydd:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant. | 4F |
| **CM7** | Dylid rhoi deunyddiau i gymedrolwyr gwirfoddol ar gyfer eu rolau | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n defnyddio cymedroli gwirfoddol ac sydd naill ai:<br>• Yn fawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant. | 4G[3] |

[3] Yn dilyn adolygiad o dystiolaeth, rydym yn cynnig cynnwys Mesur 4G yn ein Codau Cynnwys Anghyfreithlon yn ogystal â'r Mesur CM7 cyfatebol yn ein Codau Diogelwch Plant drafft.

| Rhif | Disgrifiad o'r mesur arfaethedig | Y gwasanaethau rydym yn cynnig y bydd hyn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **Adroddiadau a chwynion gan ddefnyddwyr (Cyfrol 5, Adran 17)** | | | |
| **UR1** | Meddu ar brosesau cwyno sy'n galluogi defnyddwyr i wneud cwynion perthnasol am wasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | 5A |
| **UR2** | Meddu ar systemau cwyno tryloyw sy'n hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | 5B |
| **UR3** | Cydnabod derbyn cwynion gydag amserlen ddangosol a gwybodaeth am ddatrysiad | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | 5C |
| **UR4** | Gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr i gymryd camau priodol mewn ymateb i bob cwyn | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr[4] | 5D-5H |
| **Telerau gwasanaeth/datganiadau sydd ar gael i'r cyhoedd (Cyfrol 5, Adran 18)** | | | |
| **TS1** | Dylai'r telerau a'r datganiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant gynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol dan y Ddeddf | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | 6A |

[4] Ar gyfer rhai mathau o gwynion rydym yn gwneud argymhellion gwahanol ar gyfer rhai gwasanaethau, yn seiliedig ar eu maint a lefel risg ac yn dibynnu p'un a ydynt o fewn cwmpas mesurau Sicrhau Oedran ar wahân. Trowch at Gyfrol 5, Adran 19 'Adroddiadau a Chwynion gan Ddefnyddwyr'.

| Rhif | Disgrifiad o'r mesur arfaethedig | Y gwasanaethau rydym yn cynnig y bydd hyn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **TS2** | Dylai'r telerau a'r datganiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant fod yn glir ac yn hygyrch | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr | 6B |
| **TS3** | Dylai'r gwasanaethau grynhoi canfyddiadau eu hasesiad risg plant diweddaraf yn eu telerau neu ddatganiadau | Pob gwasanaeth Categori 1 | 6AA[5] |
| **Systemau argymell (Cyfrol 5, Adran 19)** | | | |
| **RS1** | Sicrhau nad yw cynnwys sy'n debygol o fod yn Gynnwys Prif Flaenoriaeth yn cael ei gynnig i blant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n:<br>• Defnyddio system argymell cynnwys, ac yn<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel ar gyfer o leiaf un math o Gynnwys Prif Flaenoriaeth. | Dim – mesur newydd |
| **RS2** | Sicrhau bod cynnwys sy'n debygol o fod yn Gynnwys Blaenoriaeth yn llai amlwg ar ffrydiau argymell plant | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n:<br>• Defnyddio system argymell cynnwys, ac yn<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel ar gyfer o leiaf un math o Gynnwys Blaenoriaeth (ac eithrio bwlio)[6] | Dim – mesur newydd |
| **RS3** | Galluogi plant i roi adborth negyddol ar gynnwys sy'n cael ei argymell iddynt | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n:<br>• Defnyddio system argymell cynnwys, ac yn<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel ar gyfer o leiaf ddau fath o Gynnwys Prif Flaenoriaeth a/neu Gynnwys Blaenoriaeth (ac eithrio bwlio)[7], ac<br>• Sy'n Fawr | Dim – mesur newydd |
| **Cymorth i ddefnyddwyr (Cyfrol 5, Adran 20)** | | | |

[5] Yn dilyn cyhoeddi ein cyngor categoreiddio i'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Mawrth 2024, rydym yn cynnig cynnwys Mesur 6AA yn ein Codau Cynnwys Anghyfreithlon yn ogystal â'r Mesur TS3 cyfatebol yn ein Codau Diogelwch Plant drafft.

[6] Rydym hefyd yn bwriadu ymestyn y mesur hwn ar gyfer dau fath posibl o NDC. Trowch at Gyfrol 5, Adran 19 'Systemau Argymell' i gael rhagor o wybodaeth.

[7] Rydym hefyd yn bwriadu ymestyn y mesur hwn ar gyfer dau fath posibl o NDC. Trowch at Gyfrol 5, Adran 19 'Systemau Argymell' i gael rhagor o wybodaeth.

| Rhif | Disgrifiad o'r mesur arfaethedig | Y gwasanaethau rydym yn cynnig y bydd hyn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **US1** | Rhoi dewis i blant dderbyn neu wrthod gwahoddiad i ymuno â sgwrs grŵp | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n: <br>• Cynnal sgyrsiau grŵp, ac yn <br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel o un neu fwy o’r canlynol: cynnwys pornograffig, cynnwys am anhwylder bwyta, cynnwys bwlio, cynnwys difrïol a chasineb[8] a chynnwys treisgar.[9] | Dim – mesur newydd |
| **US2** | Rhoi dewis i blant rwystro a thewi cyfrifon defnyddwyr eraill | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n: <br>• Cynnwys proffiliau defnyddwyr a swyddogaethau penodol ar gyfer rhyngweithio â defnyddwyr,[10] ac yn <br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel o un neu fwy o’r canlynol: cynnwys bwlio, cynnwys difrïol a chasineb a chynnwys treisgar | 9A |

[8] Rydym yn defnyddio cynnwys ‘difrïol a chasineb’ i gyfeirio at y ddau fath o gynnwys a ddiffinnir yn y Ddeddf yn adrannau 62(2) a 62(3). Ystyrir bod gwasanaeth yn meddu ar risg ganolig neu uchel ar gyfer cynnwys difrïol a chasineb os oes ganddo risg ganolig neu uchel ar gyfer o leiaf un o’r ddau fath o gynnwys a ddiffinnir yn y Ddeddf yn adrannau 62(2) a 62(3).
[9] Rydym yn defnyddio ‘cynnwys treisgar’ i gyfeirio at y tri math o gynnwys a ddiffinnir yn y Ddeddf yn adrannau 62(4), 62(6) a 62(7). Ystyrir bod gwasanaeth yn meddu ar risg ganolig neu uchel ar gyfer cynnwys treisgar os oes ganddo risg ganolig neu uchel ar gyfer o leiaf un o’r tri math o gynnwys a ddiffinnir yn y Ddeddf yn adrannau 62(4), 62(6) a 62(7).
[10] Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys cysylltiadau defnyddwyr, postio cynnwys, a chyfathrebu â defnyddwyr. Trowch at Gyfrol 5, Adran 20 ‘Mesurau Cymorth i Ddefnyddwyr’ i gael rhagor o wybodaeth.

| Rhif | Disgrifiad o'r mesur arfaethedig | Y gwasanaethau rydym yn cynnig y bydd hyn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **US3** | Rhoi dewis i blant analluogi sylwadau ar eu postiadau eu hunain | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n:<br>• Cynnwys swyddogaethau gwneud sylwadau, ac yn<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel ar gyfer un neu fwy o'r canlynol: cynnwys bwlio, cynnwys difrïol a chasineb a chynnwys treisgar | 9B |
| **US4** | Darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr sy'n blant pan fyddant yn cyfyngu ar ryngweithio â chynnwys neu gyfrifon eraill | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n:<br>• Meddu ar swyddogaethau penodol sy'n cyfyngu ar ryngweithio â chynnwys neu gyfrifon eraill,[11] ac<br>• Sy'n fawr, ac<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | 7B (wedi'i adlewyrchu'n rhannol) |

[11] Trowch at Gyfrol 5, Adran 20 'Mesurau Cymorth i Ddefnyddwyr' i gael rhagor o wybodaeth am y swyddogaethau sy'n berthnasol i Fesur US4.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **US5** | Cyfeirio plant at gymorth ar adegau allweddol yn ystod taith y defnyddiwr | **Pwynt ymyrryd 1 – pan fydd plant yn rhoi gwybod am gynnwys**<br>Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel o un neu fwy o'r canlynol: cynnwys hunanladdiad, cynnwys hunan-niweidio, cynnwys am anhwylder bwyta, neu gynnwys bwlio<br>**Pwynt ymyrryd 2 – pan fydd plant yn postio neu'n ail-bostio cynnwys**<br>Gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mawr sy'n<br>• Cynnwys swyddogaethau postio/ail-bostio, ac<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel o un neu fwy o'r canlynol: cynnwys hunanladdiad, cynnwys hunan-niweidio, cynnwys am anhwylder bwyta, neu gynnwys bwlio, ac<br>• Sy'n cynnwys mesurau sy'n eu galluogi i adnabod pan fydd defnyddiwr yn postio neu'n ail-bostio cynnwys am hunanladdiad, hunan-niweidio, anhwylder bwyta neu fwlio<br>**Pwynt ymyrryd 3 – pan fydd plant yn chwilio am gynnwys niweidiol:** | Dim – mesur newydd |

| Rhif | Disgrifiad o'r mesur arfaethedig | Y gwasanaethau rydym yn cynnig y bydd hyn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| | | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n<br>• Cynnwys y gallu i chwilio am gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr, ac yn<br>• Meddu ar risg ganolig neu uchel o un neu fwy o'r canlynol: cynnwys hunanladdiad, cynnwys hunan-niweidio, cynnwys am anhwylder bwyta, ac<br>• Sy'n cynnwys mesurau sy'n eu galluogi i ddod yn ymwybodol pan fydd defnyddiwr yn chwilio gan ddefnyddio termau sy'n ymwneud â hunanladdiad, hunan-niweidio neu anhwylder bwyta | |
| **US6** | Darparu deunyddiau cymorth i ddefnyddwyr sy'n blant sy'n briodol i'w hoedran | Pob gwasanaeth defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | Dim – mesur newydd |

## Mesurau rydym wedi'u cynnig ar gyfer gwasanaethau chwilio

Mae'r tabl isod yn nodi'r mesurau arfaethedig ar gyfer gwasanaethau chwilio sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant.

| Rhif | Disgrifiad o'r mesur arfaethedig | Y gwasanaethau rydym yn cynnig y bydd hyn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethu ac atebolrwydd (Cyfrol 4, Adran 11)** | | | |
| **GA1** | Y corff uchaf i gynnal a chofnodi adolygiad blynyddol o weithgareddau rheoli risg sy'n ymwneud â diogelwch plant | Pob gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr | 3A |
| **GA2** | Enwi unigolyn sy'n atebol i'r corff llywodraethu uchaf am gydymffurfio â dyletswyddau diogelwch plant | Pob gwasanaeth chwilio | 3B |
| **GA3** | Datganiadau ysgrifenedig o gyfrifoldebau uwch aelodau sy'n gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli risgiau diogelwch plant | Pob gwasanaeth chwilio sy'n:<br>• Gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | 3C |
| **GA4** | Meddu ar swyddogaeth sicrwydd a monitro mewnol i roi sicrwydd annibynnol bod mesurau'n effeithiol | Pob gwasanaeth chwilio sydd:<br>• Yn fawr, ac<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | 3D |
| **GA5** | Olrhain cynnydd anarferol neu fathau newydd o PPC, PC ac NDC ar wasanaeth | Pob gwasanaeth chwilio sy'n:<br>• Chwiliad cyffredinol mawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | 3E |
| **GA6** | Meddu ar God Ymddygiad sy'n gosod safonau ar gyfer gweithwyr o ran diogelu plant | Pob gwasanaeth chwilio sy'n:<br>• Gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | 3F |
| **GA7** | Sicrhau bod staff sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio a rheoli'r gwasanaeth yn weithredol wedi cael hyfforddiant digonol ar agwedd at gydymffurfio â dyletswyddau diogelwch plant | Pob gwasanaeth chwilio sy'n:<br>• Gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr, neu'n<br>• Aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | 3G |
| **Adroddiadau a chwynion gan ddefnyddwyr (Cyfrol 5, Adran 17)** | | | |
| **UR1** | Meddu ar brosesau cwyno sy'n galluogi defnyddwyr i wneud cwynion perthnasol am wasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant | Pob gwasanaeth chwilio | 5A |

| Rhif | Disgrifiad o'r mesur arfaethedig | Y gwasanaethau rydym yn cynnig y bydd hyn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **UR2** | Meddu ar systemau cwyno tryloyw sy’n hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio | Pob gwasanaeth chwilio[12] | 5B |
| **UR3** | Cydnabod derbyn cwynion gydag amserlen ddangosol a gwybodaeth am ddatrysiad | Pob gwasanaeth chwilio | 5C |
| **UR5** | Gwasanaethau chwilio yn cymryd camau priodol mewn ymateb i bob cwyn | Pob gwasanaeth chwilio[13] | 5D-5H |
| **Telerau gwasanaeth/datganiadau sydd ar gael i’r cyhoedd (Cyfrol 5, Adran 18)** | | | |
| **TS1** | Dylai’r telerau a’r datganiadau sy’n ymwneud ag amddiffyn plant gynnwys yr holl wybodaeth sy’n ofynnol dan y Ddeddf | Pob gwasanaeth chwilio | 6A |
| **TS2** | Dylai’r telerau a’r datganiadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant fod yn glir ac yn hygyrch | Pob gwasanaeth chwilio | 6B |
| **TS3** | Dylai’r gwasanaethau grynhoi canfyddiadau eu hasesiad risg plant diweddaraf yn eu telerau neu ddatganiadau | Pob gwasanaeth Categori 2A | 6AA |
| **Cymedroli cynnwys chwilio (Cyfrol 5, Adran 16)** | | | |
| **SM1** | Meddu ar systemau a phrosesau cymedroli i gymryd camau priodol ynghylch Cynnwys Prif Flaenoriaeth, Cynnwys Blaenoriaeth a Chynnwys Heb ei Ddynodi<br>A) Pan fydd Cynnwys Prif Flaenoriaeth wedi'i nodi, israddio a/neu wneud y cynnwys chwilio yn aneglur<br>B) Pan fydd Cynnwys Blaenoriaeth a Chynnwys Heb ei Ddynodi wedi’i nodi, ystyried a yw’n briodol israddio a/neu wneud y cynnwys chwilio yn aneglur | Pob gwasanaeth chwilio | 4A |

[12] Ac eithrio mesur UR2(e) nad yw'n berthnasol i wasanaethau chwilio

[13] Ar gyfer rhai mathau o gwynion rydym yn gwneud argymhellion gwahanol ar gyfer rhai gwasanaethau, yn seiliedig ar eu maint a lefel risg. Trowch at 1.250 a 1.251 yng Nghyfrol 5, Adran 5 ‘Adroddiadau a Chwynion gan Ddefnyddwyr’.

| Rhif | Disgrifiad o'r mesur arfaethedig | Y gwasanaethau rydym yn cynnig y bydd hyn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **SM2** | Pan gredir bod defnyddiwr yn blentyn, mae'r hidlydd yn canfod Cynnwys Prif Flaenoriaeth yn y canlyniadau chwilio drwy osodiad chwilio diogel. Ni ddylai defnyddwyr y credir eu bod yn blant allu diffodd y gosodiad hwn | Pob gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr | 4A |
| **SM3** | Pennu a chofnodi polisïau cynnwys mewnol | Pob gwasanaeth sy'n:<br>• Gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr, neu'n<br>• Wasanaethau chwilio aml-risg | 4B |
| **SM4** | Gosod targedau perfformiad ar gyfer swyddogaethau cymedroli chwiliadau | Pob gwasanaeth sy'n:<br>• Gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr, neu'n<br>• Wasanaethau chwilio aml-risg | 4C |
| **SM5** | Datblygu a defnyddio polisïau ar flaenoriaethu cynnwys i'w adolygu | Pob gwasanaeth sy'n:<br>• Gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr, neu'n<br>• Wasanaethau chwilio aml-risg | 4D |
| **SM6** | Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer y swyddogaethau cymedroli chwiliadau | Pob gwasanaeth sy'n:<br>• Gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr, neu'n<br>• Wasanaethau chwilio aml-risg | 4E |
| **SM7** | Sicrhau bod pobl sy'n gweithio ym maes cymedroli chwiliadau yn cael hyfforddiant a deunyddiau | Pob gwasanaeth sy'n:<br>• Gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr, neu'n<br>• Wasanaethau chwilio aml-risg | 4F |
| **Nodweddion chwilio, swyddogaethau a chymorth i ddefnyddwyr (Cyfrol 5, Adran 21)** | | | |
| **SD1** | Cynnig ffordd i ddefnyddwyr roi gwybod yn hawdd am awgrymiadau chwilio rhagfynegol sy'n ymwneud â Chynnwys Prif Flaenoriaeth a Chynnwys Blaenoriaeth | Pob gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr | 7A |
| **SD2** | Darparu gwybodaeth am atal argyfwng mewn ymateb i geisiadau chwilio Cynnwys Prif Flaenoriaeth sy'n ymwneud â hunanladdiad, hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta | Pob gwasanaeth chwilio cyffredinol mawr | 7C |

| Rhif | Disgrifiad o'r mesur arfaethedig | Y gwasanaethau rydym yn cynnig y bydd hyn yn berthnasol iddynt | Mesur cyfatebol ar gyfer Niwed Anghyfreithlon |
|---|---|---|---|
| **Cymorth i ddefnyddwyr (Cyfrol 5, Adran 20)** | | | |
| **US6** | Darparu deunyddiau cymorth i ddefnyddwyr sy'n blant sy'n briodol i'w hoedran | Pob gwasanaeth chwilio sy'n aml-risg ar gyfer cynnwys sy'n niweidiol i blant | Dim – mesur newydd |